

Brîff Brexit



Plaid
Cymru | Party of
Wales



Dyma'r trydydd rifyn o'r Brîff Brexit, rydym yn gobeithio y gwnewch chi fwynau. Mae llawer mwy o wybodaeth am ein gwaith, gan gynnwys hen rifynnau o'r Brîff, ar gael ar [adran Brexit ein gwefan](#).

Mae tri rhan i'r Brîff hwn:

- 1) Newyddion o'r Brifddinas Imperialaidd (San Steffan)
- 2) O'r Senedd Ewropeaidd (Senedd Ewrop)
- 3) Crynhoi o'r Cynulliad (Senedd Cymru)

Mae croeso i chi yrru adborth i ni drwy e-bostio post@plaid.cymru.

Newyddion o'r Brifddinas Imperialaidd

gan Lefarydd Brexit Plaid Cymru yn San Steffan Jonathan Edwards AS a'r Tîm



Ar ddydd Llun 7 Tachwedd, lansiodd tîm San Steffan a thîm y Cynulliad ymgyrch Brexit ar y cyd – i [gael yr atebion mae Cymru yn eu haeddu](#). Bydd y naill dîm a'r llall yn cyflwyno cwestiwn ysgrifenedig ar Brexit bob dydd i'r llywodraethau. Bu'r ymgyrch yn rhedeg ers pythefnos, a bydd yn parhau tan ddiwedd y tymor. Dylai atebion ddechrau ymddangos toc gan y naill lywodraeth a'r llall, ac fe'u defnyddir i geisio rhoi eglurder i'r cyhoedd.

Nid yw'r negeseuon dryslyd, y datganiadau sy'n croes-ddweud ei gilydd, na chwit-chwatrwydd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn dderbyniol, a'n gobraith ni yw y bydd yr ymgyrch hon yn dechrau rhoi eglurder a gwell dealltwriaeth o lle mae'r llywodraethau yn sefyll ar faterion o bwys fel y farchnad sengl a chyllido.

Cafodd yr ymgyrch [ymdriniaeth yn y Sunday Times](#) cyn ei lansio ac mewn nifer o gyfryngau gan gynnwys y [BBC ar ddiwrnod y lansio](#).

Mae'r cwestiynau yn cael eu cyhoeddi ar gyfrif trydar [@Plaid Cymru](#) yn ddyddiol.

Mewn ymateb i ddyfarniad yr Uchel Lys fod yn rhaid i'r Llywodraeth gynnwys Senedd y DG yn eu penderfyniad i gychwyn Erthygl 50, [fe wnaethom dynnu sylw at bwysigrwydd rhoi llais i Seneddau cenedlaethol y DG, nid yn unig San Steffan](#), a bod yr hyn sy'n digwydd wedi'r bleidlais ar Erthygl 50 yn bwysicach – y trafodaethau eu hunain.

Mae'r Prif Weinidog wedi gwneud yn fawr o'i bygythiadau i alw etholiad brys er mwyn sicrhau bod ganddi'r mwyafrif angenrheidiol i gael y Senedd i gymeradwyo cychwyn Erthygl 50. Ymateb Jonathan i'r bygythiad hwn oedd mai'r unig ffordd i beri bod etholiad yn digwydd fyddai i'r llywodraeth gynnal pleidlais o ddiffyg hyder ynddi'i hun, ac y byddai hyn wedyn yn rhoi 14 diwrnod i'r Senedd ffurfio llywodraeth wahanol. Amlygodd Jonathan y ffaith fod mwyafrif yn Nhŷ'r Cyffredin o blaid Brexit meddal a allai ffurfio llywodraeth dros dro, gan weld gwthio Theresa May a'i chydweithwyr sydd o blaid Brexit caled i'r wrthblaid:

'Snap election bid could backfire and see hard-Brexit May pushed into opposition'

A PLAID CYMRU MP is proposing an audacious plan which could see the Conservative Party pushed into opposition at Westminster if Theresa May tries to engineer an early general election on Brexit.

Last week's High Court ruling, which said only Parliament could invoke Article 50 of the EU constitution to trigger Brexit has heightened speculation that the Prime Minister could seek to hold a snap election early next year.

But under the terms of the Fixed Term Parliament Act, such an election could only be called if two thirds of MPs vote for it, or if a vote of no confidence is passed in the Prime Minister and no other government is formed within 14 days.

Should the Supreme Court uphold the ruling of the High Court next month, the UK Government is briefing that it would use the threat of a snap election to ensure MPs and peers do not hold sway over its Brexit negotiating position.

Plaid Cymru Treasury spokesman Jonathan Edwards argues that the major ideological divide in the post-EU referendum political landscape is between those who favour a hard Brexit, with the



> Jonathan Edwards MP

UK outside the European Single Market and Customs Union, and those who favour a softer Brexit in order to minimise economic damage.

Despite the May Government's decision to interpret the referendum result as a mandate for hard Brexit, there is a majority in the House of Commons in favour of a soft Brexit and which opposes plans to leave the Customs Union and the Single Market.

Mr Edwards, the MP for Carmarthen East and Dinefwr and a member of the Commons' Brexit committee, said: "While every single MP I have spoken to since the referendum respects the result, there is considerable disquiet about the hard Brexit rhetoric of the Prime Minister, who seems intent not only on

severing all political ties with the EU but economic ones as well.

"Such a reckless Brexit would be disastrous for the economy, with a negative impact on the financial wellbeing of those whom we have been elected to serve.

"In the event of the current UK Government cynically engineering a vote of no confidence in itself, then an election will be held unless an alternative government with the confidence of the House of Commons is formed within 14 days. The Prime Minister could risk being challenged by an alliance of MPs from all political parties who oppose her right-wing, hard-Brexit trajectory. At such a pivotal moment in the UK's constitutional history, pragmatic MPs could come together and rise above party politics to put the interests of the people first and form a fully representative government of the people."

Mr Edwards said there was a majority in the House of Commons in favour of protecting our economic links with Europe, and with party politics to one side, those currently in government who are aggressively pursuing a hard Brexit could find themselves on the opposition benches if they call a vote of no confidence."

Mae AS Dwyfor Meirionnydd, Liz Saville Roberts, wedi ymweld â Glyn Ebwy gyda'r Pwyllgor Dethol Materion Cymreig fel rhan o daith ar hyd a lled Cymru i drafod Brexit a'i oblygiadau gyda'r bobl leol a rhoi cyfle i bobl ddweud eu dweud a lleisio eu pryderon. Cafwyd [ymdriniaeth ar y BBC](#) o gyfarfod y pwyllgor.

Yr wythnos nesaf, bydd y Canghellor yn cyflwyno Datganiad yr Hydref. Bydd Plaid Cymru yn pledio'r achos dros i Lywodraeth DG gadw at eu haddewidion i wneud iawn am unrhyw fwlch cyllido i Gymru wedi Brexit.

Dilynwch [@JonathanPlaid](#) a [@Plaid Cymru](#) ar Twitter i gael y diweddaraf am waith y Grŵp Seneddol ar Brexit.

O'r Senedd Ewropeaidd

gan Jill Evans ASE & a Thîm Plaid Cymru Ewrop



Cynnydd

- Mae paratodau o du'r UE ar gyfer ymadawiad y DG wedi dechrau o ddifrif. Bu Prif Drafodwr y Comisiwn, Michel Barnier, yn cyfarfod llywodraethau'r UE ar gyfer trafodaethau cychwynnol. Y si sydd ar led ym Mrwsel yw y bydd ar yr UE eisiau drafft o fargen ymadael y DG erbyn canol 2018.
- Os bydd y DG yn rhoi cychwyn ar Erthygl 50 ym Mawrth 2017, ac y ceir cytundeb ar fargen erbyn canol i ddiwedd 2018, bydd hyn yn gadael chwe mis i'r 27 aelod-wladwriaeth gadarnhau'r fargen ac i ddyddiad am adael gael ei osod ar gyfer 2019.
- Mae'n debyg y bydd trefniant trosiannol o ran masnach hyd y gwneir cytundeb newydd rhwng y DG a'r UE wedi i'r DG adael.

Cost

- Bydd cost ariannol i'r DG ac ochr yr UE, y sôn yw y bydd tua €40-60 biliwn. Bydd Michel Barnier yn ystyried ymrwymadau, benthyciadau, gwario ar brosiectau ac ymrwymadau eraill. Gallwn ddisgwyl cryn ddadlau am hyn!

Dinasyddiaeth yr UE

- Mae llawer o etholwyr wedi cysylltu yn mynegi cefnogaeth i'r syniad o ddinasyddiaeth gysylltiol o'r UE ar ôl i'r DG adael. Byddai hyn yn rhoi i unigolion yr hawl i symud yn rhydd a sefyll i'w hethol i Senedd Ewrop yn un o aelod-wladwriaethau'r UE. Ar hyn o bryd, cyfyngir dinasyddiaeth o'r UE yn unig i'r sawl sy'n byw yn un o aelod-wladwriaethau'r UE. Mae arnom angen mwy o drafod am ddinasyddiaeth yr UE ac y mae angen i ni ofalu ei fod yn cael ei gynnwys yn y fargen adael. Mae llawer o Ewropeaid Cymreig, a rhaid cydnabod hynny.

Pwyllgorau Senedd Ewrop

- Prin iawn yw'r amser am adroddiadau rhagarweiniol gan bwyllgorau Senedd Ewrop ar ymadawiad y DG. Gosododd Guy Verhofstadt, Prif Drafodwr y Senedd, bedwar cwestiwn y dylai'r pwyllgorau ymdrin â hwy. Maent yn ymwneud â deddfwriaeth bresennol ac yn y dyfodol. Y nod yw cael cyfres gymharol o asesiadau o effaith gadael erbyn diwedd Ionawr, i baratoi ar gyfer cynnig y bydd y senedd yn pleidleisio arno wedi i Erthygl 50 gael ei gychwyn. Adroddiadau cychwynnol yn unig yw'r rhain ac fe fydd gwaith llawer mwy manwl yn dilyn.

Crynhoi o'r Cynulliad

Gan ein llefarydd Brexit yn y Senedd Steffan Lewis AC a'r Tîm Cynulliad



Bu'r Prif Weinidog yn destun craffu ar fater Brexit gan Bwyllgor Materion Allanol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yr wythnos diwethaf. Yr hyn a wnaeth oedd ailadrodd safbwynt Llafur eu bod eisiau 'mynediad di-dariff' at y farchnad sengl, ond gan dderbyn ar yr un pryd y gall hyn fod yn amhosib heb dderbyn hefyd ryddid pobl i symud. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi a Seilwaith, Ken Skates, cyn hyn wedi dweud yn hollol i'r gwrthwyneb. Tra bod Llafur yn chwit-chwat, mae Plaid Cymru yn glir. Cadw aelodaeth o'r farchnad sengl pan fyddwn yn gadael yr UE yw'r unig ffordd i amddiffyn ein heconomi a chynaliadwyedd ein gwasanaethau cyhoeddus.

Yr wythnos ddiwethaf, galwodd Steffan Lewis AC a Simon Thomas AC am [Ddeddf Parhad yr UE i Gymru](#), er mwyn ymgorffori holl reoliadau presennol yr UE yng nghyfraith Cymru. Bydd

hyn yn gofalu y bydd y safonau sydd mor werthfawr i ni, megis gwarchodaeth amgylcheddol, safonau bwyd, a'r hawliau y daethom i'w cymryd yn ganiataol fel dinasyddion yr UE, yn parhau mewn grym yng Nghymru wedi Brexit. Bydd yn golygu y bydd Cymru yn parhau i gydymffurfio â'r UE, a fydd yn hanfodol ar gyfer y 200,000 o swyddi yng Nghymru sydd yn dibynnu ar fasnachu gydag Ewrop. Bydd hefyd yn atal Mesur Dadwneud UE y Ceidwadwyr rhag troi yn fodd i San Steffan ddwyn grym dos faterion sydd eisoes wedi eu datganoli. Mae hinsawdd wleidyddol San Steffan yn gynyddol wrthwynebus i bobl Cymru. Rhaid i ni sicrhau, pa bynnag drywydd a gymer Theresa May o ran dilyn Brexit, ac y mae gogwydd i'r dde yn edrych yn gynyddol debygol, y gall Cymru ddilyn ei thrywydd gwahanol ei hun.

Tynnodd Simon Thomas sylw at y ffaith fod hyn yn arbennig o arwyddocaol i gyfreithiau amgylcheddol Cymru, y mae dros 200 o reoliadau'r UE yn sail iddynt. Dylai penderfyniadau am Gymru gael eu gwneud yng Nghymru. Mae hyn yn arbennig o wir am gyfreithiau ynghylch amaethyddiaeth a'n hamgylchedd, lle mae gan Gymru anghenion gwahanol nad yw llywodraeth bellennig San Steffan yn eu deall. Mae'r UE yn cyfrif am dros 90% o allforion amaethyddol Cymru, a bydd parhau i gydymffurfio â rheoliadau'r UE yn hanfodol er mwyn i'r fasnach honno barhau.

Yn dilyn penderfyniad yr Uchel Lys mai'r Senedd yn unig all roi cychwyn ar Erthygl 50 a chychwyn y broses o gael y DG i adael yr UE, penderfynodd [Llywodraeth Cymru ymyrryd yn yr apêl yn y Goruchaf Lys](#). O ystyried arwyddocâd posib penderfyniad y Goruchaf Lys i ffurfiant cyfansoddiadol y DG, dylid croesawu'r ffaith y bydd gan Gymru lais yn y trafodaethau. Awgrymodd y Cwnsler Cyffredinol, Mick Antoniw AC, y bydd yn gwneud sylwadau am rôl y Senedd o ran pennu unrhyw newidiadau yn y setliad datganoli, oblygiadau bwriad Llywodraeth y DG i ddefnyddio pwerau uchelfraint i greu newidiadau i drefniadau cyfansoddiadol, ac ymwneud y deddfwrfeydd datganoledig yn ystod proses Brexit. [Ar ddydd Gwener Tachwedd 18 fe wnaeth y Goruchaf Lys ddyfarnu y bydd gan lywodraethau Cymru a'r Alban hawl i ymyrryd yn y broses.](#)